## GORCHYMYN FFORDD FYNEDIAD GWAITH DUR YR A4810 (QUEEN'S WAY), (LLAN-WERN, CASNEWYDD) (CLIRFFORDD) 202-

## DATGANIAD O'R RHESYMAU

Yn ddiweddar, mae Gweinidogion Cymru wedi cwblhau gwaith i sicrhau bod tua 5 cilometr o'r hen ffordd ddeuol breifat, a elwir Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) sy'n rhedeg drwy safle Tata Steel yn Llan-wern yng Nghasnewydd, yn cyrraedd safon priffordd gyhoeddus.

Bydd y cynllun uwchraddio yn gwella'r mynediad i Ardal Ehangu Dwyrain Casnewydd, gan gynnwys safle Datblygiad Glan Llyn, yn ogystal â darparu llwybr arall i draffordd yr M4 ac oddi yno. Bydd y ffordd hefyd yn darparu mynedfa newydd i dde a dwyrain Casnewydd o'r M4 i'r dwyrain o Gyffordd 23A ac yn atgyfnerthu rôl y Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol fel llwybr arall o'r dwyrain i'r gorllewin o amgylch Casnewydd.

Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn angenrheidiol er mwyn creu clirffordd i gynnal tramwyfa ddirwystr drwy'r llwybr i hwyluso diogelwch ei defnyddwyr, gan fod y ffordd yn gwasanaethu traffig trwodd a busnesau.

Bydd y glirffordd ar y darn hwnnw o ffordd fynediad yr A4810 tua'r dwyrain a thua'r gorllewin sy'n ymestyn o ochr ddwyreiniol cylchfan yr A4810 â Baldwin Drive hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o ganol Cyffordd Comin Broad Street, sef cyfanswm pellter o 5 cilometr.

Bydd Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) (Llan-wern, Casnewydd) (Terfynau Cyflymder Dros Dro a Chlirffordd) 2024 yn cael ei ddirymu gan y Gorchymyn arfaethedig.

## THE A4810 STEELWORKS ACCESS ROAD (QUEEN'S WAY) (LLANWERN, NEWPORT) (CLEARWAY) ORDER 202-

## STATEMENT OF REASONS

The Welsh Ministers have recently completed work to bring up to public highway standard approximately 5km of the former private dual carriageway, known as the A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way) running through the Tata Steel site at Llanwern in Newport.

The upgrading scheme will improve access to Newport's Eastern Expansion Area, including the Glan Llyn Development site as well as providing an alternative route from and to the M4 motorway. The road will also provide a new means of access to south and east Newport from the M4 east of Junction 23A and reinforce the role of the Southern Distributor Road as an alternative east-west route around Newport.

The proposed Order is necessary to create a clearway to maintain unhindered passage through the route to facilitate the safety of its users, as the road serves both through traffic and businesses.

The clearway will be over that length of the eastbound and westbound A4810 access road that commences from the eastern side of the A4810 roundabout with Baldwin Drive to a point 50 metres west of the centre of the Broad Street Common Junction, a total distance of 5 kilometres.

The A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way), (Llanwern, Newport) (Temporary Speed Limits and Clearway) Order 2024 would be revoked by the proposed Order.